

Disgrifiad swydd a manyleb y person

Rheolwr Gwasanaeth Byw'n Annibynnol			
Lefel cyflog	3	Cyfeirnod y swydd	4164
Adran	Byw'n Annibynnol ac Ymateb i Argyfwng	Rhanbarth / isadran	Gweithrediadau'r DU
Lleoliad gwaith	Rhaid gallu treulio amser yn gweithio yn y swyddfa yn Caerdydd yn ôl y gofyn yn ogystal â theithio o amgylch chwe sir gogledd Cymru	Yn atebol i	Rheolwr Gweithrediadau Byw'n Annibynnol
Hyd y rôl	Parhaol	Diweddarwyd ddiwethaf	Ebrill 2016

Hyd a lled y rôl

Is-weithwyr uniongyrchol	Hyd at 10+	Is-weithwyr anuniongyrchol	Hyd at 50+
Cyfrifoldeb / atebolrwydd cyllidebol	Tua £50,000	Atebolrwydd dros adnoddau eraill	Defnyddiau traul, cyfarpar ac adnoddau Byw'n Annibynnol
Cyrhaeddiad ac effaith	Cydlynu ac yn datblygu ein cynnig Byw'n Annibynnol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gynhwysfawr a chydgyssylltiedig. Bod yn brif gyswllt ar gyfer rhanddeiliaid a phartneriaid penodedig Byw'n Annibynnol.		

Cyd-destun

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn helpu pobl mewn argyfwng, pwy bynnag ydyn nhw a lle bynnag maen nhw. Rydym yn rhan o rwydwaith gwirfoddol byd-eang sy'n ymateb i wrthdaro, trychinebau naturiol ac argyfyngau unigol. Rydym yn galluogi pobl agored i niwed yn y DU a thramor i baratoi ar gyfer argyfyngau yn eu cymunedau eu hunain, a'u gwrthsefyll. A phan fydd yr argyfwng wedi dod i ben, byddwn yn eu helpu i ailafael yn eu bywydau. Yn y DU, mae'r Groes Goch Brydeinig yn gweithredu drwy gyfrwng dros 3,000 aelod o staff a dros 20,000 o wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth Byw'n Annibynnol ac Ymateb i Argyfwng yn rhoi cymorth i bobl yn y bwch rhwng yr ysbyty a'r cartref, ac yn ymateb i anghenion pobl sydd ddim yn gwybod ble i droi yn dilyn argyfwng; mae'n cynnal rhwydwaith eang o gysylltiadau allanol ar draws ieuchyd, gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau brys.

Pwrpas cyffredinol y rôl

Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn cydlynu ac yn datblygu ein cynnig Byw'n Annibynnol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gynhwysfawr a chydgyssylltiedig. Bydd yn rheoli'r gwasanaethau ac yn sicrhau bod yr holl safonau gwasanaeth priodol, yr arferion da sy'n cael eu cydnabod, y gofynion cyfreithiol a'r gwaith rheoli cyllidebau yn cael eu cynnwys mewn rhaglen o safon sy'n bodloni anghenion ein buddiolwyr a gwaith ein gwirfoddolwyr.

Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn mynd ati'n frwd i rwydweithio â chyrrff sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yr ardal i sefydlu'r Groes Goch yn y cymunedau perthnasol ac i eirioli ar ran anghenion buddiolwyr lleol. Mae deiliad y swydd yn gweithio'n agos â Rheolwr Datblygu Busnes yr Ardal a Rheolwr Gweithrediadau Byw'n Annibynnol i gynnal y contractau gwasanaeth yn briodol.

Mae gofyn gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd, a bod ar rota swyddog ar-alwad 24 awr yn rheolaidd. Hefyd, gall dyletswyddau ymateb i argyfwng posibl godi unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Prif gyfrifoldebau

1. Cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun yr ardal

- > Bod yn gyfrifol am reoli a monitro gweithgareddau a phrosiectau Byw'n Annibynnol o ddydd i ddydd a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau gwasanaeth, polisiau a gweithdrefnau'r Groes Goch a gofynion cyfreithiol.
- > Cydlynu'r gwasanaeth bob dydd a chefnogi'r swyddogaeth ymateb i argyfwng yn gyffredinol, gan gynnwys nodi gwelliannau i'r hyn rydym yn ei gynnig.
- > Bod yn gyfrifol am gyflawni targedau lleol a thargedau tîm fel rhan o'r cynlluniau ardal a chenedlaethol.

2. Rheoli rhanddeiliaid

- > Sicrhau bod anghenion cymunedol am wasanaethau Byw'n Annibynnol yn cael eu hasesu a dangos bod strategaethau'n cael eu datblygu er mwyn gwneud hyn, drwy weithio gyda'r gymuned.
- > Sefydlu cysylltiadau gwaith da gyda'r partneriaid priodol (darllenwch y manylion am rwydweithio) a gweithio i gynyddu'r hyn y gallwn ei wneud a'r hyn rydym yn ei wneud yng nghyswllt Byw'n Annibynnol yn yr ardal leol.
- > Bod y prif gyswllt ar gyfer yr ymddiriedolaethau/awdurdodau lleol sy'n benodol i'r swydd.

3. Cefnogi'r gwasanaeth i ddatblygu a chontractau'r gwasanaeth

- > Manteisio i'r eithaf ar yr hyn rydym yn gallu ei wneud i ehangu rôl a chyfraniad y Groes Goch wrth ymateb i argyfwng.
- > Trafod a rheoli contractau'r gwasanaeth, gan gynnwys cymeradwyo contractau bychan.
- > Cefnogi, monitro a gwerthuso contractau newydd a rhai presennol i sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd gan sicrhau bod y targedau y cytunwyd arnynt â'r comisiynwyr yn cael eu cyflawni.
- > Helpu mewn trafodaethau â chomisiynwyr, o ran adnewyddu contractau a chytundebau lefel gwasanaeth a datblygu contractau newydd.
- > Cydweithio â chydweithwyr mewn Ardaloedd eraill, yn arbennig yn rhanbarth de Lloegr, gan sefydlu cysylltiadau gwaith effeithiol â nhw. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i rannu arferion da a gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella'r mudiad.

4. Rheoli ansawdd a pherfformiad

- > Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a chyllidebau. Monitro a rheoli cyllidebau y cytunwyd arnynt â chi a sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau ariannol, gan gynnwys sicrhau bod anfonebau'n cael eu paratoi a'u hanfon yn brydlon.
- > Sicrhau bod anghenion buddiolwyr yn cael eu bodloni drwy amrywiaeth o waith monitro ymgysylltiad â defnyddwyr a rheoli ac adrodd ar effaith ein gwasanaethau ar fuddiolwyr.
- > Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei defnyddio i fonitro ac adolygu gweithgareddau'r gwasanaeth er mwyn penderfynu faint o adnoddau i'w dyrannu.
- > Cynnal a chyflawni cofnodion ystadegol, a darparu adroddiadau gweithredol yn ôl y gofyn a chysylltu'n effeithiol â thimau adrodd mewnol.
- > Cefnogi'r Rheolwr Gweithrediadau Ymateb Brys i sicrhau bod safonau gwasanaeth priodol, arferion da cydnabyddedig, gofynion cyfreithiol a gofynion eraill yn cael eu bodloni.

5. Rheoli

- > Bod yn rheolwr llinell i'r Cydlynwyr Gwasanaeth Byw'n Annibynnol a'r Cynorthwywyr Gwasanaeth (neu gyfatebol) a recriwtio a helpu staff newydd i gynefino fel sy'n briodol.

- > Goruchwylio'r gwaith o gydlynu a chefnogi'r gwirfoddolwyr Byw'n Annibynnol i sicrhau bod yr holl ofynion cymhwysedd ac ansawdd yn cael eu bodloni a bod gwasanaeth o'r radd flaenaf yn cael ei ddarparu.
- > Goruchwylio'r gwaith o recriwtio, cynefino a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd. Cysylltu'n effeithiol â phartneriaid busnes mewnol i fodloni'r gofynion hyn.
- > Cefnogi unrhyw raglenni hyfforddi drwy sicrhau bod llwybrau hyfforddi'n cael eu nodi a bod cyrsiau amserol ar gael ac yn cael eu cyflwyno.
- > Cefnogi, arwain, cynnwys a chymell y tîm lleol.
- > Cefnogi a dirprwyo ar ran cydweithwyr yn y tîm Byw'n Annibynnol yn ôl y gofyn.

6. Aelod o'r tîm

- > Bod yn Rheolwr ar Ddyletswydd yn rheolaidd, ar sail rota, ac ymateb i alwadau argyfwng a digwyddiadau mawr fel sy'n briodol.
- > Cydweithio â chydweithwyr mewn Ardaloedd eraill, a sefydlu cysylltiadau gwaith effeithiol â nhw.
- > Cefnogi swyddogaeth gyffredinol ymateb i argyfwng y Groes Goch Brydeinig - er enghraifft, cefnogi cydweithwyr Ymateb i Argyfwng yn ystod argyfyngau llym y gaeaf.
- > Chwarae rhan weithredol mewn materion iechyd, diogelwch a lles yn yr Ardal ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros agweddau iechyd, diogelwch a lles wrth ddarparu'r gwasanaeth.
- > Unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill, ar gais y Rheolwr Gweithrediadau Byw'n Annibynnol/Cyfarwyddwr Ardal

Ni all aelodau staff wrthod cais, yn afresymol, i gyflawni tasg sy'n briodol i lefel y sgiliau a/neu'r profiad sydd ganddynt. Bydd unrhyw newid i'w hamcanion a'u blaenoriaethau yn cael eu trafod a'u cadarnhau â'u rheolwr llinell.

Manyleb y person

Dalier sylw: bydd y ddogfen hon yn cael ei defnyddio i lunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer unrhyw swydd wag ar gyfer y rôl hon, ac yna bydd yn cael ei defnyddio yn y broses ddethol a fydd yn dilyn. Bydd yn sail ar gyfer cynllun datblygu i unigolyn a fydd yn cael ei benodi i'r rôl hon.

Gwybodaeth (gan gynnwys addysg a hyfforddiant)	<ul style="list-style-type: none"> > Addysg hyd at Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol drwy brofiad)** > Trwydded yrru lawn > Deall TG, gyda phrofiad o ddefnyddio pecynnau e-bost, prosesu geiriau a thaenlenni**
---	---

	<ul style="list-style-type: none"> > Gwybodaeth am reoli gweithredol > Rheoli busnes, cyllid ac adnoddau > Gallu paratoi, rheoli a monitro cyllidebau** > Gwybodaeth am y gwasanaethau sydd i'w rheoli neu barodrwydd i gael hyfforddiant > Gwybodaeth am Wasanaethau Oedolion a chyrrff comisiynu'r GIG a dealltwriaeth ohonynt > Gwybodaeth gyffredinol am ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol
Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> > Sgiliau trefnu – cynllunio, rheoli a monitro eich llwyth gwaith eich hun a llwyth gwaith pobl eraill > Gallu blaenoriaethu amryw o ofynion sy'n anghyson â'i gilydd > Gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu/gweithredol** > Gallu cydgasglu a dehongli amrywiaeth o wybodaeth reoli gan gynnwys gwybodaeth ystadegol ac adborth defnyddwyr** > Dadansoddi, gwneud penderfyniadau a datrys problemau, gan gynnwys gallu meddwl yn strategol ac yn ochrol > Meddwl yn greadigol ac yn arloesol > Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu** > Sgiliau cyflwyno
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> > Profiad o fonitro ac adolygu safonau ac ansawdd > Rheoli a chymell gwirfoddolwyr a staff i ddarparu'r gwasanaethau > Arwain Tîm** > Recriwtio a dethol gwirfoddolwyr a staff > Profiad o gysylltu ag asiantaethau (statudol a gwirfoddol) bob dydd a chyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt > Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol > Cynllunio a rheoli prosiectau a gweithgareddau, gan gynnwys gallu datblygu partneriaethau mewnol ac allanol** > Arwain pobl: Cymell, cyfarwyddo a chefnogi pobl eraill i gyflawni gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Groes Goch** > Rheoli a datblygu eich hun

	<ul style="list-style-type: none"> > Recriwtio a dewis unigolion > Rheoli a datblygu unigolion
<p>Cymwyseddau</p>	<ul style="list-style-type: none"> > Cydnabod goblygiadau gweithio i elusen a mudiad gwirfoddol > Cydnabod a gwerthfawrogi cyfraniad pobl eraill > Bod yn gyfrifol am eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd eich hun yn ogystal â rhai'r tîm > Dangos hyblygrwydd a meddwl agored > Bod yn barod i herio ymddygiad amhriodol > Rhoi adborth a chefnogi pobl eraill
<p>Ymddygiadau</p>	<p>CANOLBWYNTIO AR BOBL MEWN ARGYFWNG</p> <ul style="list-style-type: none"> > Annog pobl eraill i feddwl o'r safbwyntiau hyn <p>BOD YN GYFRIFOL AM ADNODDAU</p> <ul style="list-style-type: none"> > Defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am sefydliadau i wneud newidiadau i'r Groes Goch Brydeinig er mwyn cynyddu gwerth gweithredol drwy fanteisio i'r eithaf ar y ffrydiau incwm neu drwy eu cynyddu <p>CEISIO DEALLTWRIAETH</p> <ul style="list-style-type: none"> > Nid wastad yn stopio gyda'r ateb cyntaf; yn dangos chwilfrydedd a dygnwch. <p>CROESAWU AC ARWAIN NEWID</p> <ul style="list-style-type: none"> > Yn nodi ac yn cefnogi pobl eraill i reoli eu hymateb eu hunain o ran newid ac ansicrwydd <p>CYDWEITHIO</p> <ul style="list-style-type: none"> > Buddsoddi'r amser i ddarganfod beth yw barn pobl eraill a datblygu cysylltiadau gan feddwl am gyfleoedd posibl yn y dyfodol <p>CYFATHREBU A DYLANWADU</p> <ul style="list-style-type: none"> > Yn dylanwadu ar bobl eraill gan ddefnyddio dadleuon cymhellol sydd wedi cael eu pwysu a'u mesur yn ofalus, er mwyn meithrin cefnogaeth ac ymgysylltiad

	<p>ARWAIN AC YMGYSYLLTU</p> <ul style="list-style-type: none"> > Cyflawni amcanion busnes drwy gyfarwyddo, cymell a dylanwadu ar bobl a thimau <p>DATBLYGU EICH HUN A PHOBL ERAILL</p> <ul style="list-style-type: none"> > Hyfforddi, mentora a datblygu pobl eraill ar gyfer y tymor hir <p>CANOLBWYNTIO AR YR ATEB</p> <ul style="list-style-type: none"> > Meddwl am ganlyniadau rhoi gwahanol opsiynau / atebion ar waith <p>RHEOLI EFFAITH BERSONOL</p> <ul style="list-style-type: none"> > Mynd ati'n frwd i ael adborth er mwyn profi syniadau a gwella'n barhaus
<p>Gofynion ychwanegol</p>	<ul style="list-style-type: none"> > Gallu gweithio oriau anghymdeithasol** > Gallu ymateb i sefyllfaoedd brys, a bod ar alwad 24 awr yn ôl y gofyn** > Gallu gweithio a theithio'n helaeth o amgylch yr Ardal yn rheolaidd, fel sy'n briodol, a gallu teithio ymhellach yn y DU yn ôl y gofyn ** > Glynu wrth yr Egwyddorion Sylfaenol a gweithredu'n egwyddorol ac yn unol ag ymrwymadau a gwerthoedd y Gymdeithas (cynhwysol, trugarog, dewr a deinamig) > Sicrhau ymarfer gwrth-gamwahaniaethol a hyrwyddo amrywiaeth

*DS Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol, a nodir gyda **, yn cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad, yn unol â'n hymrwymiad o dan gynllun y ddau dic.*